



**Dyfodol i'r laith**

**Cyfraniad Dyfodol i'r laith at 'Sgwrs Radio Cymru'**

**Cyfeiriad: [post@dyfodol.net](mailto:post@dyfodol.net)**

**Mai 2013**

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiâu cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau i 'Sgwrs Radio Cymru'.

---

Y pedwar cwestiwn a osodwyd gan Radio Cymru/Wales yw:

- A yw BBC Radio Cymru'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng ei rhaglenni newyddion ac adloniant? Os na, beth ddylid ei newid?

- A yw cerddoriaeth Radio Cymru yn taro'r cywair iawn gyda chi a'ch teulu? Os na, beth hoffech chi glywed?

- Gan edrych i'r dyfodol, a ydych chi'n cytuno y dylai Radio Cymru ehangu ei apêl, gan gynnwys y rheiny sy'n llai hyderus yn y Gymraeg?

- Os ydych chi'n cytuno, sut dylai Radio Cymru newid neu addasu ei rhaglenni i wneud i'r cynulleidfaoedd newydd hyn deimlo bod croeso iddyn nhw a'u bod nhw'n cael eu cynnwys?

---

Mae **Dyfodol i'r iaith** yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at *Sgwrs Radio Cymru* am ddyfodol yr orsaf.

Nid ydym am gychwyn trwy ateb y pedwar cwestiwn fel y'u gosodir uchod, ond am wneud sylwadau am yr hyn sydd y tu ôl i'r cwestiynau cyn troi atynt.

Yn ei araith yn Abertawe, dywedodd Rhodri Talfan Davies:

Prif flaenoriaeth Radio Cymru yw gwasanaethu ei chynulleidfa – yn hytrach nag achub iaith. Ac mae cyfuno'r ddau beth yn beryglus. Pe byddem yn mynnu mai prif nod yr orsaf fyddai diogelu a gwarchod math aruchel o iaith a diwylliant Cymraeg, doed a ddêl, fe fyddem – ymhen amser – yn ei gwneud yn gwbl amherthnasol.

(<http://www.bbc.co.uk/mediacentre/speeches/2013/davies-celtic-media-festival.html>)

Mae'n resyn gennym bod Rhodri Talfan Davies yn defnyddio iaith ragfarnllyd ac ymfflamychol braidd wrth sôn am 'diogelu a gwarchod math aruchel o iaith a diwylliant Cymraeg, doed a ddêl' (ei gyfieithiad Saesneg yw 'protect and preserve a rareified form of the Welsh language'), ac nid ydym yn adnabod y sefyllfa honedig y seiliwyd ei sylwadau arni.

Nid yw'r eglur beth yw'r dystiolaeth sy'n sail i ddatganiad Rhodri Talfan Davies. Er mwyn i'r drafodaeth fod yn dryloyw, byddai'n werthfawr cael enghreifftiau ganddo o'r hyn y mae'n ei alw'n 'rareified form of Welsh', neu o gwynion neu ymatebion negyddol gan wrandawyr. Os oes

tystiolaeth o'r fath, dylid ei rhannu er mwyn i'r ymgynghoriad hwn fod yn ystyrlon. Os nad oes tystiolaeth, dylid gwneud hyn hefyd yn eglur.

Mae Siarter Brenhinol 2006 er parhad y BBC yn nodi bod y gorfforaeth yn bod i wasanaethu budd y cyhoedd.

Pedwar diben cyhoeddus cyntaf y BBC yw:

- (a) Cynnal dinasyddiaeth a'r gymdeithas sifil;
- (b) Hyrwyddo addysg a dysgu;
- (c) Symbylu creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;
- (ch) cynrychioli'r D.U., ei chenedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau;

Mae'r Siarter Brenhinol hwn yn caniatáu i Radio Cymru fod yn ehangach na'r diffiniad o 'wasanaethu ei chynulleidfa' fel yr honnir gan Rhodri Talfan Davies. Mae symbylu creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol yn ei hanfod yn golygu hyrwyddo iaith a diwylliant yng nghyd-destun Cymru, ac nid 'cynnig gwasanaeth' yn unig.

Mae cymariaethau rhyngwladol ar gael y gallai fod yn dda i BBC Cymru/Wales roi sylw iddynt. Mae gwasanaeth teledu Māori'n nodi mae ei brif nod yw "promote te reo and tikanga Māori". Yna dywedir 'It is targeted at Māori language speakers of all fluency levels and non-speakers to encourage as many people as possible to value the language as a taonga and increase their language fluency'.

[https://www.maoritelevision.com/sites/default/files/attachments/M%C4%81ori%20Television%20Stament%20of%20Intent%202012%20-%202015.pdf](https://www.maoritelevision.com/sites/default/files/attachments/M%C4%81ori%20Television%20Statement%20of%20Intent%202012%20-%202015.pdf)

Mae Siarter Brenhinol 2006 yn caniatáu'r rôl yma i BBC Cymru/Wales, gan fod 'hyrwyddo addysg a dysgu' yn nod o bwys, a dylai hyn yng nghyd-destun Cymru gynnwys dysgu'r Gymraeg.

Yn Seland Newydd, mae'r gwasanaeth Māori yn cynnal dwy sianel: y naill yn targedu siaradwyr rhugl a dysgwyr uchel eu sgiliau, a'r llall yn targedu dysgwyr, siaradwyr newydd a rhai heb siarad yr iaith. Mae'r sianel hon yn ddwyieithog.

Yn achos y gwasanaeth teledu Māori dywedir "Māori Television is committed to ensuring that both channels contribute to the achievement of the Māori Language Strategy".

O gymhwyso hyn i Gymru mae modd gofyn y cwestiynau hyn:

- i. I ba raddau mae ein gwasanaeth radio a theledu'n gweithredu'n gydlynus gydag ymdrechion eraill i adfywio'r Gymraeg, sy'n rhan o strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, e.e. ysgolion Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, ymdrechion diwylliannol o bob math, a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn gwahanol beuoedd.
- ii. I ba raddau mae modd darparu un sianel radio / teledu i siaradwyr rhugl yn bennaf, fel y gwneir ar hyn o bryd, ac i ba raddau mae modd i sianeli eraill yng Nghymru ddarparu ar gyfer siaradwyr newydd, gan hybu diwylliant Cymru ymysg y di-Gymraeg.

Wrth geisio ateb hyn, gellir honni na chafwyd ymdrechion trylwyr yng Nghymru i wneud y gwasanaeth radio/teledu yn rhan gydlynus ac annatod o gynlluniau adfywio iaith. Mae Rhodri Talfan Davies yn sôn 'save the language'. Nid yw defnyddio terminoleg aneglur o'r fath yn gymorth i'r drafodaeth. Mae'r Gymraeg yn fyw ac yn iach, ond gellir gwneud llawer i'w adfywio, i hyrwyddo ei

diwylliant ac i hyrwyddo ac o ehangu'r defnydd ohoni. Mae angen i siaradwyr y Gymraeg, o bob safon ac o bob lefel hyder, deimlo bod cefnogaeth iddynt ddefnyddio'r iaith.

Mae Radio Cymru/Wales yn un o'r gwasanaethau cyfryngol a diwylliannol sy'n gwasanaethu'r Gymraeg, ac mae angen i bob un o'r rhain sylweddoli gwirionedd sylfaenol, sef eu bod yn dibynnu ar hyfywedd y Gymraeg mewn teuluoedd a chymunedau. Does dim modd gwahanu'r gwasanaeth oddi wrth y gynulleidfa, a rhan o gyfraniad y cyfryngau yw hyrwyddo'r iaith fel yr hwylusir y defnydd ohoni gan siaradwyr a darpar siaradwyr.

Gellir cynnig bod sawl 'math' o siaradwr Cymraeg a gwrandawr. Does dim modd diffinio hyn yn gwbl glir, gan fod gan bob unigolyn ei bersonoliaeth ieithyddol, boed yn uniaith neu'n ddwyieithog neu'n amlieithog, ac mae rhaid ceisio parchu hyn a rhoi modd i bob unigolyn ganfod defnydd i'w allu ieithyddol yng ngwasanaeth y BBC.

Wrth geisio meddwl am gynulleidfa mae angen ystyried y canlynol:

- i. Oed: pant, pobl ifanc, oedolion ifanc, oedolion, henoed
- ii. Gallu academaidd: di-gymhwyster, cymwysterau ysgol cymedrol, cymwysterau ysgol uchel, cymwysterau coleg, cymwysterau prifysgol
- iii. Gallu ieithyddol: di-Gymraeg, dysgwyr, siaradwyr newydd, siaradwyr tafodiaith rhugl, siaradwyr iaith 'safonol' rhugl

Bydd gan y rhain wahanol ddiddordebau, o ran cerddoriaeth, diwylliant, chwaraeon, gwleidyddiaeth, ac ati ac mae angen i wasanaeth radio ystyried sut mae hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y cyfan.

Yn ogystal ag ystyried y gynulleidfa yng Nghymru, ni byddai'n ddrwg i BBC Cymru/Wales hefyd ystyried y gynulleidfa ryngwladol sydd bellach yn gallu manteisio ar y gwasanaeth radio.

Nid yw'r cwestiynau a ofynnir uchod gan BBC Cymru/Wales wedi eu gosod mewn cyd-destun cymdeithasol-ieithyddol, ac ni fydd yr atebion a geir felly'n adlewyrchu cymhlethdod y mae angen ei ddeall a'i gydnabod. Os yw BBC Cymru/Wales o ddi-fri am holi'r cwestiynau uchod, mae angen i'r rhain fod yn rhan o ymchwil drylwyr i'r farchnad i ganfod patrymau defnydd personol a theuluol. Nid yw'r cwestiynau'n rhai cynhwysfawr ar gyfer newid y gwasanaeth.

Rydym yn bryderus hefyd nad yw'r cwestiynau a osodir yn ymwneud â Radio Wales. Rydym o'r farn nad yw'r gwasanaeth hwnnw'n rhoi lle digonol i ddiwylliant Cymru nac i'r iaith Gymraeg ac i gerddoriaeth Gymraeg. Dyma rai nodweddion o'r gwahaniaeth ieithyddol rhwng y ddwy orsaf:

- i. Mae cyfran sylweddol o'r gerddoriaeth ysgafn a glywir ar Radio Cymru'n gerddoriaeth Saesneg, ond anaml iawn y clywir cerddoriaeth Gymraeg ar Radio Wales.
- ii. Mae Radio Cymru'n cyfeirio'n fynych at ddiwylliant Saesneg / America, ond prin yw'r cyfeiriadau at ddiwylliant Cymraeg Cymru ar Radio Wales.
- iii. Er bod rhai cyhoeddwyr ar Radio Wales yn cyfarch neu'n diweddu eitem yn Gymraeg, nid oes ar y gwasanaeth hwnnw ddim darpariaeth i ddysgwyr neu i siaradwyr newydd.

Yn sgil hyn, prin yw'r arweiniad i'r di-Gymraeg ac i rai sydd am ddysgu Cymraeg i'r byd Cymraeg.

Rhowch atebion byr i'r cwestiynau:

“A ydych chi’n cytuno y dylai Radio Cymru ehangu ei apêl, gan gynnwys y rheiny sy’n llai hyderus yn y Gymraeg? Os ydych chi’n cytuno, sut dylai Radio Cymru newid neu addasu ei rhaglenni i wneud i’r cynulleidfaoedd newydd hyn deimlo bod croeso iddyn nhw a’u bod nhw’n cael eu cynnwys?”

Cred **Dyfodol i’r iaith** fod angen i’r cwestiynau hyn gael eu hanelu at Radio Wales yn ogystal ag at Radio Cymru. O gael cychwyn ieithyddol i ddysgwyr a siaradwyr dihyder ar Radio Wales, bydd modd codi hyder y rhain maes o law yn y Gymraeg, a’u cyfeirio at raglenni addas iddynt ar Radio Cymru.

Heb fod BBC Cymru/Wales yn derbyn bod ganddo rôl adfywio ieithyddol, bydd yn anodd i’r gwasanaethau ddarparu’n gadarnhaol fel hyn.

Mae’r ddau gwestiwn cyntaf yn ymwneud â chydbwysedd o ran cynnwys ac apêl y cynnwys.

Mae’n amlwg i **Dyfodol i’r iaith** bod Radio Cymru, fel gwasanaeth un sianel, yn gorfod diwallu pob angen ar hyn o bryd, ac nid yw hyn yn beth hawdd. Tra bod gan siaradwyr Saesneg nifer di-rif o sianeli i’w boddhau, mae siaradwyr y Gymraeg yn dibynnu ar un sianel. Mae’n brofiad cyffredin, tybiwn ni, bod siaradwyr Cymraeg yn gorfod dethol eu rhaglenni yn ôl eu diddordeb a’u hawydd, gan droi at sianeli Saesneg am weddill eu harlwy.

Does dim ateb hawdd i hyn, gan fod y gynulleidfa mor amrywiol o ran diddordeb a hyder ieithyddol.

Cred **Dyfodol i’r iaith** mai defnyddio iaith lafar, naturiol, gyfoethog ei hidiomau sy’n ddealladwy i wrandawyr ledled Cymru yw’r allwedd gywir i raglenni sy’n cyflwyno newyddion a gwybodaeth. Mae egwyddorion ar hyn wedi eu gosod ers tro. Dylai hyd gyd-fynd ag ymdrech gyffredinol yn y wasg Gymraeg ac mewn meysydd eraill i sefydlu iaith lafar safonol yn brif gyfrwng cyfathrebu pan anelir at y cyhoedd yn gyffredinol.

Cred **Dyfodol i’r iaith** hefyd mai safon y cynnwys sy’n denu gwrandawyr at raglenni ym mhob iaith, ynghyd ag amrywiaeth ddeniadol yn yr arlwy beunyddiol. Mae **Dyfodol i’r iaith** yn gobeithio nad yw’r cwestiynau a osodwyd gan BBC Cymru/Wales yn awgrym o Seisnigo bwriadol ar ran y darlledwr.

I ddatrys yr anhawster o ran cydbwysedd, cred **Dyfodol i’r iaith** bod angen paratoi yn awr ar gyfer datblygu dau wasanaeth radio cenedlaethol Cymraeg. Gall y naill dargedu siaradwyr newydd a rhai rhugl tra gall y llall dargedu diwylliant yr ifanc. Gellir galw’r naill yn ‘Radio Pawb’ a’r llall yn ‘Radio Pop’.

Byddai hyn yn rhoi modd i wasanaeth radio’r BBC gyfrannu’n gadarnhaol at adfywio a datblygu diwylliant yr ifanc, a sicrhau, ymysg pethau eraill, bod cerddoriaeth boblogaidd Gymraeg a’r iaith yn ei sgil yn treiddio i siopau a gweithleoedd.

Ond i gydredeg â hyn, mae’n bwysig bod *Radio Wales* yn darparu rhaglenni i ddysgwyr ac i’r di-Gymraeg, gyda’r nod o’u dwyn i mewn i’r byd Cymraeg.

Prin fod yr un ohonom sydd yn byw yng Nghymru yn byw trwy’r Gymraeg yn unig, ond mae angen un sianel lle mae sicrwydd mai’r Gymraeg a glywir, tra bod *Radio Wales* yn cyfrannu at y diwylliant Cymraeg. Yn awr hefyd yw’r amser i gynllunio ar gyfer radio Cymraeg poblogaidd i bobl ifanc.